Ymrwymiad Ymgynghoriad Cymunedol

Mae'r Ymrwymiad Ymgynghoriad Cymunedol hwn yn egluro sut y gallwch roi eich sylwadau ar gynlluniau Menter Môn ar gyfer Morlais – prosiect ynni llif llanw newydd.

Bydd dau gyfnod o ymgynghori gyda chyfnodau ymateb penodol wedi eu diffinio. Mae manylion ar ble y gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach wedi eu nodi isod. Mae eich sylwadau chi ar Morlais (y Prosiect) yn bwysig i ni, a bydd unrhyw sylwadau 'rydych yn eu cyflwyno yn cael eu hystyried wrth i Menter Môn baratoi'r cais am ganiatâd ar gyfer y Prosiect. Mae cyflwyno cais am ganiatâd wedi ei gynllunio ar gyfer Gorffennaf 2019.

Bydd Menter Môn yn ceisio am ganiatâd yn unol â Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, 1992 (TWAO), a' Deddf Môr a Mynediad i'r Arfordir, 2009 (MCAA). Mewn cyswllt â hyn rydym yn ymgymryd â phroses ymgynghori gyhoeddus sydd wedi ei fanylu isod.

Prosiect Menter Môn yw Morlais. Menter gymdeithasol yw Menter Môn sy'n gweithio ar draws Gogledd Cymru i gyflawni prosiectau adfywio, amgylcheddol a diwylliannol er budd cymunedau lleol.

Datblygiad arfaethedig

Mae Menter Môn wedi sicrhau les Parth Arddangos Gorllewin Môn i Menter Môn gan Ystâd y Goron er mwyn datblygu'r safle i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn defnyddio cerrynt cryf y llanw. Mae'r parth yn ymestyn dros 35 km^2 o wely'r môr ac mae wedi ei leoli i'r Gorllewin o arfordir Ynys Môn.

Nod rhan gyntaf y prosiect yw sicrhau caniatâd ar gyfer datblygu parth arddangos ynni llif llanw a gosod yr isadeiledd angenrheidiol yn ei le i alluogi datblygwyr trawsnewidwyr ynni llif llanw i brofi eu technoleg yn fasnachol. Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Cyngor Sir Ynys Môn; Yr Awdurdod Dad-gomisiynu Niwclear (NDA) a'r sector breifat, mae gan Morlais y potensial i fod yn un o'r safleoedd ynni llif llanw mwyaf yn y byd. Mae'r prosiect yn cynnig cyfle i dyfu dros amser gyda'r capasiti i gynhyrchu trydan o hyd at 240MW.

Allan yn y môr bydd trawsnewidwyr ynni llif llanw yn cael eu gosod, ynghyd â cheblau ar wely'r môr a 'hybiau' yn cysylltu grwpiau o dyrbinau gyda'i gilydd mewn rhesi. Ar y tir bydd is-orsaf a cheblau yn rhedeg dan y ddaear i is-orsaf arall a fydd yn cysylltu i'r grid.

Yn buddsoddiad sylweddol gwerth miliynau, y bwriad ar gyfer Morlais yw creu ffynhonnell o refeniw i'w ail fuddsoddi yn ôl i'r gymuned leol drwy fentrau a phrosiectau Menter Môn. Y nod yw sicrhau'r budd mwyaf i'r ardal a chreu cyfleoedd economaidd i bobl a busnesau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu sydd i ddilyn.

Mae effeithiau posib y datblygiad yn cael eu hasesu, er enghraifft, mae arbenigwyr wrthi'n asesu'r effaith bosib ar bobl a'r amgylchedd drwy edrych ar yr impact gweledol; cyfyngiadau ar fordwyaeth o fewn y parth; a chynnydd posib mewn traffig yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae meysydd asesu eraill yn cynnwys effaith ar ecoleg, ansawdd dŵr a phrosesau arfordirol.

Maen bwysig iawn bod cymunedau a grwpiau lleol yn cael cyfle i leisio barn er mwyn bwydo i mewn i'r cynlluniau ac i gyfrannu i'r broses o sicrhau caniatâd.

Y Broses caniatâd

Bydd Menter Môn yn cyflwyno cais am ganiatâd i ddatblygu a gweithredu Parth Arddangos Morlais i Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, 1992 (TWA). Am wybodaeth bellach ar y broses, cliciwch yma.

Bydd Menter Môn hefyd yn cyflwyno cais am drwydded forol i Weinidogion Cymru drwy dîm trwyddedau morol Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Deddf Môr a Mynediad i'r Arfordir, 2009 (MCAA). Bydd y broses hon yn rhedeg ochr yn ochr â'r broses ganiatâd. Mae gwybodaeth bellach ar drwyddedau morol a'r broses drwyddedu ar gael yma.

Gwybodaeth Amgylcheddol

Mae cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol yn elfen graidd o'r cais am ganiatâd, ac mae'r ymgynghoriad yn rhan bwysig iawn o'r broses hon, yn enwedig yr ymgynghori statudol ar faterion technegol allweddol. Bwriad y broses ymgynghori yw sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu lleisio'n gynnar, a ble bo'n bosib yn cael eu lliniaru cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

Pan fydd yr Asesiad Effaith Amgylcheddol wedi ei gwblhau, bydd 'Datganiad Amgylcheddol' yn cael ei gynhyrchu. Bydd y Datganiad Amgylcheddol yn gosod allan asesiad o effeithiau amgylcheddol sylweddol posib y prosiect ynghyd ag unrhyw gamau lliniaru fydd eu hangen os nad yw'n bosib osgoi'r effeithiau hynny. Bydd y datganiad yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais am ganiatâd.

Amserlen, cwmpas ac ymateb i'r ymgynghoriad

Bydd manylion yr ymgynghoriad, gan gynnwys dyddiadau ar gyfer rhoi sylwadau, ar gael ar wefan Morlais www.morlaisenergy.com .

Pan fydd dyddiadau'r ymgynghoriad cyntaf ar gael byddent yn cael eu rhannu ar wefan Morlais.

Bydd Menter Môn yn ymgynghori ar brosiect Morlais gan ddefnyddio'r dulliau isod:

- **Gwefan y prosiect** – bydd dogfennau a mapiau yn dangos y cynlluniau i gyd ar gael ar y wefan, ynghyd â rhestr lawn o ddigwyddiadau ymgynghori.
- **Holiadur/ Ffurflen Sylwadau** – i'w hanfon at fusnesau a phreswylwyr fydd yn debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad. Bydd y rhain hefyd ar gael ar y wefan ac ymhob digwyddiad cyhoeddus.
- **Arddangosfeydd Cyhoeddus** – i'w cynnal mewn lleoliadau ar Ynys Môn, yn benodol yn ardal Caergybi.
- **Newyddlen** – i'w hanfon at y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynlluniau, hefyd ar gael ar wefan y Prosiect.
- **Cyfryngau** – bydd datganiadau i'r wasg a hysbysebion yn cael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno'r cais. Bydd y rhain yn cynnwys manylion yr ymgynghoriad ac unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus.
- **Cyfathrebu gwleidyddol / sesiynau briffio cynghorau cymuned a thref** – bydd gwleidyddion lleol a grwpiau cymunedol perthnasol yn cael eu diweddaru ar y Prosiect.

Bydd holl ddeunydd cyfathrebu sy'n perthyn i'r Prosiect ar gael yn ddwyieithog. Gall ymatebion ac adborth i'r ymgynghoriad gael eu cyflwyno yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Bydd dogfennau print bras ar gael ar gais.

Gall adborth ac ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hanfon at y tîm prosiect yn defnyddio'r manylion cyswllt swydd wedi eu nodi isod.

Bydd tîm Morlais ym Menter Môn yn ystyried pob ymateb perthnasol i'r ymgynghoriad a bydd hyn yn cael ei arddangos yn gyhoeddus fel rhan o'r adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais am ganiatâd ar gyfer y Prosiect.

Lleoliadau ble mae dogfennau ar gael
Bydd yr Ymrwymiad Ymgynghoriad Cymunedol hwn, ynghyd â'r holl ddogfennau perthnasol eraill ar gael am ddim yn swyddfeydd Menter Môn, Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR o dydd Llun i Gwener rhwng 1030 a 1700.

Arddangosfeydd Cyhoeddus
Cynhelir y digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn lleoliadau hygyrch yn ardal y datblygiad arfaethedig. Bydd manylion y digwyddiadau yn cael eu cyhoeddi yn lleol ac yn y cyfryngau perthnasol. Bydd yr Ymrwymiad Ymgynghoriad Cymunedol hwn, dogfennau perthnasol, a deunyddiau eraill ar gael yn ogystal â thîm prosiect Morlais i ateb unrhyw gwestiynau ac ymholiadau.

Manylion Cyswllt
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda'r tîm gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

• Menter Môn, Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR
Llun-Gwener, 1030 to 1700

- Ffoniwch 01248 725 722
- www.morlaisenergy.com
- info@morlaisenergy.com

Wrth gysylltu gyda'r tîm, nodwch eich enw, neu enw'r person yr ydych yn ei gynrychioli. Os ydych yn darparu adborth ar y cynigion neu yn ymateb i'r ymgynghoriad, nodwch sail eich ymateb a'r cyfeiriad ble gellir anfon gohebiaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect atoch.

Bydd unrhyw sylwadau ac ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu trin yn briodol ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Er gwybodaeth, Swyddfa Cofrestredig Morlais yw Menter Môn, Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR.